# Rheoli digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'ch gallu i weithio fel aelod o'r tîm i fynychu a rheoli digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid. Mae'r safon hon yn cynnwys defnyddio cyfarpar amddiffynnol personol a defnyddio cyfarpar yn ddiogel i reoli anifeiliaid ac i'ch cadw chi'n ddiogel adeg digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid.

Gall fod yn anodd rhagweld ymddygiad anifeiliaid, a gall newid yn gyflym iawn, felly bydd angen i chi ddeall y meysydd allweddol a all effeithio ar ymddygiad anifeiliaid mewn digwyddiadau tân ac achub. Ar hyd y safon hon, mae'n bwysig eich bod chi'n cyfathrebu'n effeithiol er mwyn eich cadw chi eich hun ac eraill yn wybodus ac yn ddiogel.

Rydym yn argymell y safon hon ar gyfer diffoddwyr tân sy'n mynychu digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau gyda phobl eraill perthnasol eich tasgau a'ch dyletswyddau yng nghyswllt digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, yn unol â'ch rôl, eich cyfrifoldebau, eich gallu a'ch profiad 2. eich lleoli eich hun mewn digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid yn unol â gofynion eich rôl 3. nodi ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad anifeiliaid mewn digwyddiadau tân ac achub 4. rhoi gwybod i bobl eraill perthnasol sy'n mynychu digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid am unrhyw newid yn ymddygiad yr anifeiliaid, yn unol â gweithdrefnau cyfathrebu eich sefydliad 5. gweithredu'n ddiogel mewn digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol 6. defnyddio dulliau a thechnegau cydnabyddedig i ddelio gyda digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol 7. cynnal cyfathrebu effeithiol gyda phobl eraill perthnasol mewn digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, yn unol â gweithdrefnau cyfathrebu eich sefydliad 8. defnyddio adnoddau, cyfarpar a chyfarpar amddiffynnol personol mewn digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, yn unol â'u cyfyngiadau, diogelwch a chyfarwyddiadau gweithredu

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Iechyd a Diogelwch**

1.pwysigrwydd cynnal eich diogelwch a'ch lles eich hun ac eraill mewn digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid
2.ffactorau sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles personél wrth ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid
3.arferion gwaith diogel eich sefydliad wrth ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid
4.y mesurau sydd ar gael i gynnal lles mewn digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, gan gynnwys ardaloedd gorffwys, bwyd, dŵr, a chefnogaeth cymorth cyntaf
5.peryglon a risgiau digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid sy'n effeithio ar bobl, eiddo a'r amgylchedd
6.sut mae defnyddio gwybodaeth asesu risg
7.sut mae defnyddio gwybodaeth asesu risg i wneud penderfyniadau
8.sut mae cymhwyso penderfyniadau ar sail yr asesiad risg
9.mesurau rheoli eich sefydliad i liniaru risg
10.cyfarpar gweithredol ac amddiffynnol personol a ddefnyddir mewn digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, gan gynnwys eu galluoedd, eu cyfyngiadau a defnydd diogel ohonynt

**Sefydliadol**

11.gofynion eich rôl mewn digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid, gan gynnwys;
polisïau a gweithdrefnau sydd i'w dilyn
y ddeddfwriaeth ddiweddaraf sydd i'w dilyn
12.canllawiau gweithredol protocolau perthnasol
13.rolau, cyfrifoldebau a therfynau awdurdod o'ch rhan eich hun, eraill ac asiantaethau eraill yng nghyswllt digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid

**Personol a rhyngbersonol**

14.dulliau a thechnegau ar gyfer cyfathrebu gydag eraill
15.llinellau a dulliau cyfathrebu ac adrodd yn y gweithle
16.pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol gydag eraill yn ystod digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid
17.sut mae trin eraill â pharch ac ystyriaeth, gan roi sylw i amrywiaeth a'i dderbyn

**Technegol**

18. gwybodaeth sydd ar gael i lywio eich dealltwriaeth o ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid a sut mae ei chyrchu
19. sut mae defnyddio technegau priodol i symud a lleoli eich hunan ac eraill mewn digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid
20. tactegau achub a dulliau ar gyfer rheoli a rhyddhau anifeiliaid
21. sut mae cynnal ymwybyddiaeth o'r sefyllfa mewn digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid
22. sut mae ymateb i wahanol fathau o ymddygiad anifeiliaid
23. yr adnoddau sydd ar gael i chi, a phryd i'w dethol, ar gyfer delio gyda digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid

## Cwmpas/Ystod

### 1. Ffynonellau a mathau o wybodaeth

1.1gwybodaeth arbenigol am achub anifeiliaid
1.2data lleoliad, defnydd a chludiant
1.3cofrestrau gallu lleol a chenedlaethol
1.4cynlluniau a strategaethau tân ac achub lleol, strategol ac ar gyfer digwyddiadau mawr
1.5gwybodaeth am ddigwyddiadau hanesyddol
1.6strategaethau achub anifeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
1.7polisïau, canllawiau, gweithdrefnau gweithredu safonol ac asesiadau risg sy'n berthnasol i ddigwyddiadau yn ymwneud ag anifeiliaid
1.8meddalwedd ac offer perthnasol

### 2 Nodweddion digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid

2.1ymddygiad anifeiliaid
2.2ymddygiad dynol
2.3rheoli anifeiliaid (gan gynnwys rheolaeth gorfforol a chemegol)
2.4sbardunau
2.5Mae risgiau cyffredinol yn troi'n ddeinamig eu natur pan fo anifeiliaid dan sylw

### 3 Risgiau

3.1risgiau iechyd a diogelwch i bobl
3.2risg eiddo, economaidd a masnachol
3.3risg amgylcheddol
3.4cynlluniau rheoli risg, megis cynlluniau Rheoli Risg Integredig a Chofrestrau Risg Cymunedol

### 4 Eraill

4.1BARTA (Cymdeithas Achub Anifeiliaid a Gofal Trawma Prydain)
4.2CFOA ARPF (Fforwm Ymarferwyr Achub Anifeiliaid)
4.3cydweithwyr
4.4perchnogion/personau cyfrifol
4.5milfeddygon
4.6RSPCA, SSPCA, USPCA
4.7Safonau Masnach
4.8DEFRA
4.9y gwasanaethau brys

4.10cwmnïau cyfleustodau
4.11y cyfryngau
4.12aelodau o'r cyhoedd
4.13gwasanaethau trafnidiaeth
4.14Timau Chwilio ac Achub
4.15Awdurdodau Lleol a Chenedlaethol
4.16Asiantaethau ymchwil
4.17Asiantaethau gwirfoddol
4.18Asiantaethau eraill

**5 Adnoddau**

5.1adnoddau mewnol
5.2adnoddau allanol
5.3personél a'u galluoedd
5.4cymorth milfeddygol/arbenigol
5.5cyfarpar

## Cysylltiadau â SGC eraill

Disgwylir i'r SGC hon gael ei defnyddio a'i chymhwyso ar y cyd â SGC eraill sy'n berthnasol i'ch rôl ym maes tân ac achub.

## Cysylltiadau Allanol

Mae ‘Canllawiau Gweithredol Tân ac Achub - GRA 2.5 - Achub anifeiliaid mawr' ar gael, ac fe'u datblygwyd i ddarparu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ychwanegol o ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid mawr i bersonél Gwasanaeth Tân ac Achub y Deyrnas Unedig.

Rheoli digwyddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Gorff 2016 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Gorff 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJEFSS006 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Diffoddwyr tân, Gwasanaeth Cyhoeddus, Gofal anifeiliaid |
| **Cyfres/Set** | Tân ac Achub |
| **Geiriau Allweddol** | tân; achub; anifail; digwyddiad; arbenigol; gwybodaeth; strategaeth; ymddygiad anifeiliaid |